

HYFFORDDIANT O SAFON BYD YN Y

GANOLFAN AWYR AGORED GENEDLAETHOL AR GYFER CYMRU



PECYN GWYBODAETH HYFFORDDI
I HYFFORDDWYR AWYR AGORED



PROFIAD **DYSGU** DATBLYGU **MWYNHAU**



1

Hyfforddiant yn y Ganolfan Awyr Agored Genedlaethol

2

Hyfforddiant ar Afon Menai

3

Cyfleusterau, Lleoliad, Pryd gallwch chi ddechrau?, Cost

4

Cynlluniau Talu, Cymorth Gyrfaoedd, Ewch amdani!

5

Rhaglen Hyfforddi Hyfforddwr Awyr Agored 22 wythnos

6

Rhaglen Hyfforddi Hyfforddwr Awyr Agored 16 wythnos

7

Rhaglen Hyfforddwr Dingi a Gwyntsyrrffio 10 wythnos

8

Rhaglen Datblygu Hyfforddwyr Plas Menai

10

Cyrsiau Hyfforddwyr

10

Hyfforddwr Dingi yr RYA, Cymeradwyaeth Aml-Gwch neu Gychod Cil yr RYA

11

Cymeradwyaeth Hyfforddwr Uwch yr RYA, Uwch Hyfforddwr yr RYA

12

Hyfforddwr Gwyntsyrrffio yr RYA

12

Hyfforddwr Gyrru Cychod Pŵer yr RYA

13

Hyfforddwr Chwaraeon Rhwyfo BC





Hyfforddiant yn y Ganolfan Awyr Agored Genedlaethol

Mae Plas Menai wedi bod yn addysgu hyfforddwy awyr agored am fwy na 30 o flynyddoedd ac mae gennym ni enw da ledled y diwydiant yn fyd-eang am galibr uchel yr hyfforddwy 'parod am waith' rydyn ni'n eu cynhyrchu bob blwyddyn. Mae ein henw da diguro, ein cyfleusterau gwych, ein hadnoddau helaeth a'n lleoliad trawiadol yr gwneud Plas Menai yn ddewis cyntaf ar gyfer y rhai sydd eisieu troed i mewn yn y diwydiant awyr agored.



Nod ein rhaglenni ni yw eich helpu chi i fanteisio i'r eithaf ar eich amser gyda ni, a sicrhau bod gennych y sgiliau a'r cymwysterau priodol i gael gwaith yn y diwydiant ar ôl i chi adael. Gyda dewis o gyrsiau addas ar gyfer disgyblaethau penodol, mae'r rhaglenni hyfforddi hyfforddwy awyr agored proffesiynol yma'n cyflwyno'r cymwysterau allweddol a gydnabyddir yn rhyngwladol y mae cyflogwyr yn y sector yn chwilio amdanyh nhw.

1

Gall ennill un o'r cymwysterau yma agor y drws ar gyfleoedd byd-eang, o weithio fel Hyfforddwr Chwaraeon Dŵr ar un o draethau Môr y Canoldir i weithio fel Aelod Criw ar iot fawr yn y Caribî. Mae tocyn o Blas Menai'n docyn i gyrchfan o'ch dewis chi.



Yn ystod eich cyfnod yn y ganolfan, byddwch yn datblygu eich sgiliau awyr agored personol, yn barod ar gyfer dilyn cymwysterau hyfforddi, yn ogystal â datblygu eich sgiliau addysgu, sy'n angenrheidiol er mwyn dod yn hyfforddwr effeithiol.

Byddwch yn gweithio gan gadw at reoliadau a chanllawiau Cyrff Rheoli Cenedlaethol, gan fod ein holl gyrsiau wedi'u hachredu gan yr RYA neu British Canoeing.





sportwales
chwaraeon cymru

Hyfforddiant ar Afon Menai



Un dyfyniad enwog gan yr Arglwydd Horatio Nelson yw, *“Os gallwch chi hwylio Afon Menai fe allwch chi hwylio yn unrhyw le yn y byd”*, gan ddisgrifio'r ardal fel *“un o'r darnau peryclaf o fôr yn y byd.”*

Yn 16 milltir o hyd, mae Afon Menai'n gwahanu Ynys Môn oddi wrth dir mawr

Cymru. Mae eigioneg yr ardal yn eithaf unigryw, gydag amrywiaeth gyfoethog o gynefinoedd, gan gynnwys môr-nentydd ac aberoedd, fflatiau llaid a thywod, môr-lynnoedd, cors halen, traethau o ro mân, clogwyni môr a riffiau calchfaen o dan y dŵr.



2



Gyda llanwau angenfilaidd yn llifo drwyddi ddwywaith y dydd, mae dyfroedd yr Ardal Cadwraeth Arbennig forol yma'n gallu bod yn ddigroeso ar eu gwaethaf, ond eto maen nhw'n lleoliad perffaith ar gyfer datblygu sgiliau o ansawdd uchel. Mae amrywiaeth ddi-ddorol o leoliadau, ystod eang o gynefinoedd wedi ffurfio'n naturiol ac, ar adegau,

tywydd annisgwyl, yn golygu bod y sgiliau mae rhywun yn eu dysgu yma'n gallu cael eu haddasu'n rhwydd, gan eich paratoi chi ar gyfer y dyfroedd anoddaf un y dewch chi ar eu traws mewn llefydd eraill.



Mae'r darn canol rhwng y ddwy bont, sy'n cael ei alw'n Pwll Ceris, yn amgylchedd deinamig gyda llif cryf, llanwol, cerrynt cyflym a throbyllau mawr, a'r cyfan yn creu safle hyfforddi cyffrous a heriol.



Yn gartref i un o'r amrediadau llanwol mwyaf yn y byd, gallwn warantu y bydd eich profiad ar Afon Menai'n sicrhau eich bod yn forwr medrus a dawnus erbyn y byddwch yn gadael.

PROFIAD DYSGU DATBLYGU MWYNHAU
EXPERIENCE LEARN DEVELOP ENJOY

Cyfleusterau

Mae ymgeiswyr yn cael ystafell sengl yn ein tai ni ar y safle, gyda mynediad hwylus i holl gyfleusterau'r ganolfan, y storfa ar gyfer y cit, y maes parcio a mynediad am ddim i'r rhyngwyd. Mae llety llawn yn rhan o ffi'r cwrs, gyda phrydau maethlon ac iach yn cael eu gweini'n ddyddiol, gan ddarparu ar gyfer unrhyw ofynion o ran deiet.

Rydyn ni ymhlith y canolfannau sydd â'r amrywiaeth fwyaf o offer awyr agored o'r safon uchaf yn unrhyw le yn y DU, a defnydd o git o ansawdd uchel (cofiwch nad ydi hyn yn cynnwys esgidiau). Mae pob llyfr cofnodi a llawlyfr i hyfforddwy'r wedi'u cynnwys.

Lleoliad

Mae Plas Menai'n ganolfan awyr agored breswyl fawr sydd wedi'i hadeiladu i bwrpas. Mae wedi'i lleoli ar bedair erw o dir ar gyrion Afon Menai, rhwng Bangor a Chaernarfon.



Mae ein lleoliad ar lan y dŵr hefyd dafliaid carreg o Barc Cenedlaethol nodedig Eryri, sy'n golygu ein bod yn gallu cynnig amrywiaeth ddiguro o leoliadau ac amodau hyfforddi i fyfyrwyr, gan roi iddyn nhw nid yn unig y cymwysterau y maen nhw eu hangen, ond profiad uniongyrchol o amgylcheddau heriol amrywiol.

3

Pryd gallwch chi ddechrau?

Mae ein **cwrs 22 wythnos** yn dechrau bob blwyddyn ym mis Gorffennaf ac mae ein **cwrs 16 wythnos** yn dechrau bob blwyddyn ym mis Awst. Mae'r ddau gwrs yn gorffen mewn pryd ar gyfer seibiant cwbl haeddiannol dros y Nadolig.

Mae ein **cwrs 10 wythnos** yn dechrau bob blwyddyn ym mis Ionawr, gan orffen mewn pryd i'r ymgeiswyr llwyddiannus ymuno â'n cynllun IDP*.



*Mwy o wybodaeth ar dudalen 8.

Cost

Gan ein bod yn gallu creu pecynnau pwrpasol allan o'n cyrsiau, bydd y gost yn dibynnu ar ba elfennau rydych chi'n dymuno eu defnyddio. Mae opsiynau llety llawn hefyd, neu ddibreswyl. Gellir cael gwybod beth ydi'r prisiau presennol drwy gysylltu â'r Swyddfa Archebu ar info@plasmennai.co.uk neu 0300 300 3112.

Cofiwch fod bond o £100 i'w dalu cyn dechrau ar y cwrs a byddwch yn cael hwn yn ôl ar ôl gadael y llety mewn cyflwr boddhaol ar ddiwedd eich cyfnod yma. Pwrpas yr arian yw talu am unrhyw ddifrod afresymol sydd wedi'i achosi yn y tŷ, ac i git y ganolfan. Tra byddwch yn cymryd rhan mewn gweithgareddau trefnus ym Mhlas Menai, bydd gennych Atebolrwydd Trydydd Parti fel rhan o yswiriant Plas Menai.



sportswales
chwaraeon cymru

Cynlluniau Talu

Rydyn ni'n deall ei bod yn gallu bod yn anodd codi arian i dalu am eich cwrs o ddewis ymlaen llaw weithiau, a dyma pam rydyn ni wedi sefydlu cynllun talu, er mwyn i chi allu rhannu'r gost yn fforddiadwy. Dim ond bod y rhandaliad olaf wedi'i dalu cyn eich dyddiad dechrau, gallwn sicrhau bod y taliadau'n cael eu haddasu i weddu i'ch sefyllfa ariannol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn holi sut gallwn ni wneud i hyn weithio i chi.

Cymorth Gyrfaoedd

Mae ein perthynas waith agos gyda chewri'r diwydiant yn golygu ein bod yn gallu gweithio gyda chyflogwyr blaenllaw ar weithwyr awyr agored proffesiynol. Gyda mwy na 90% o'r rhai sy'n cael eu hyfforddi yma'n mynd yn syth i waith, rydyn ni'n falch o fod wedi lleoli hyfforddwyr yn fyd-eang gyda rhai o'r cwmnïau canlynol:



Bydd Plas Menai'n darparu gwybodaeth a chyfarwyddyd am y cyfleoedd amrywiol sydd ar gael i chi ar ôl i chi gwblhau eich cwrs.

Ewch Amdani



Nid yw'r rhaglenni yma'n gofyn i'r ymgeiswyr fod ag unrhyw gymwysterau ymlaen llaw, sy'n ddelfrydol i rywun yn gadael yr ysgol neu goleg.

Nid yw oedran yn rhwystr i unrhyw rai o'n cyrsiau ni, felly rydyn ni'n annog pobl hŷn sydd eisiau newid gyrfa i ymgeisio hefyd.

Er nad ydych chi angen unrhyw gymwysterau, byddai rhywfaint o brofiad a diddordeb mewn chwaraeon dŵr o fantais.



Mantais ychwanegol y rhaglenni yma yw y bydd cyfle i chi, yn ystod eich amser yma, fireinio eich sgiliau y tu allan i'r oriau hyfforddi ar yr amserlen. Os oes lle ar gael, gall ymgeiswyr ddod ar ein cyrsiau penwythnos yn aml, sy'n golygu mwy o amser ar y dŵr, a datblygu'n gynt.



Os oes gennych chi diddordeb yn unrhyw rai o'n rhaglenni Hyfforddi Hyfforddwyr, ac os hoffech siarad gyda rhywun am y cyfleoedd yma, cysylltwch â'n Tîm Archebu ar **0300 300 3112** neu **info@plasmennai.co.uk**.



Hefyd, mae cofrestru ar unrhyw rai o'r cyrsiau hyn yn gwarantu cyfweiliad awtomatig i chi am le ar ein Rhaglen Datblygu Hyfforddwyr gyda thâl.

PROFIAD DYSGU DATBLYGU MWYNHAU
EXPERIENCE LEARN DEVELOP ENJOY



sportwales
chwaraeon cymru

Rhaglen Hyfforddi Hyfforddwyr Awyr Agored 22 wythnos

Beth ydi'r rhaglen yma?

Mae'r rhaglen 22 wythnos yma'n llawn cyfleoedd i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau a gwybodaeth anhygoel. Gyda ffocws mawr ar ddechrau'r cwrs ar forio, byddwch yn cael treulio 2 wythnos ar ein iot hardd 38 troedfedd, yr Hanse 385 6 pherson, yn ystod y cyfnod yma. Wedi'i godio'n fasnachol gan yr RYA fel cwrs sy'n cydymffurfio â chategori 2, mae'r cyfleusterau ar y bwrdd yn cynnwys gwresogi, dŵr poeth, popty, oergell, toiled, Radar, GPS a hefyd AIS, felly ni fydd raid i chi gollu cysuron cartref yn ystod eich arhosiad.



Hefyd byddwch yn gweithio tuag at eich cymhwyster Cwch Pŵer Canolraddol, gan weithio o amrywiaeth o'n cychod nodedig, sy'n cynnwys rib 5.5m XS gydag injan Mariner 80hp 4 strôc a rib 7.8m Ribcraft gydag injan Mercury 200 hp 4 strôc.

Beth sydd wedi'i gynnwys?

Morio

Criw Medrus yr RYA, Theori Capten
Dydd yr RYA, Capten Dydd yr RYA.



Hwyllo Dingi

Sgiliau Sylfaenol yr RYA, Hwyllo gyda Hwyliau Trisgwar yr RYA, Hyfforddwr Dingi'r RYA.



Gwyntsyrrffio

Dechrau Gwyntsyrrffio'r RYA, Starn-Ogamu
Cwys Dim Plaenio'r RYA, Dechrau ar Draeth yr RYA, Gwyntsyrrffio
Canolraddol (Dim Plaenio) yr RYA, Hyfforddwr Dechrau Gwyntsyrrffio'r RYA.



Caiacio

Diogelwch ac Achub Sylfaen BC, Dyfarniadau Chwaraeon Rhwyfo –
Dechrau, Darganfod ac Archwilio, Dyfarniad Penodol i Ddisgyblaeth,
Hyfforddwr Chwaraeon Rhwyfo.



Gyrru Cychod Pŵer

Gyrru Cychod Pŵer Lefel 2 yr
RYA, Gyrru Cychod Pŵer Canolraddol yr RYA, Hyfforddwr Gyrru Cychod
Pŵer yr RYA (i'r rhai â phrofiad blaenorol wedi'i gofnodi o yrru cychod
pŵer).



Amrywiol

Cymorth Cyntaf yr RYA, Trwydded Radio VHF, Cynnal a Chadw Injan Ddisel yr RYA, Arweinydd Beicio Mynydd
MIAS.

Mae pob ffi arholiad a'r llyfrau cofnodi perthnasol wedi'u cynnwys ym mhecyn y rhaglen hyfforddi, ond bydd aelodaeth o'r RYA, a llawlyfrau ychwanegol, yn arwain at ffi bellach.

PROFIAD DYSGU DATBLYGU MWYNHAU
EXPERIENCE LEARN DEVELOP ENJOY



Rhaglen Hyfforddi Hyfforddwr Awyr Agored 16 wythnos

Beth ydi'r rhaglen yma?

Bydd dull amlddisgyblaeth o hyfforddi'n golygu eich bod yn cael ymarfer 3 phrif faes yn rheolaidd; hwylio dingi, caiacio a gwyntsyrrffio.

Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar sylfeini pob un, cyn adeiladu ar eich hyfforddiant drwy ddatblygu a chadarnhau sgiliau ac amrywiadau. Bydd cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau'n sicrhau eich bod yn cael profiad llawn o fywyd fel hyfforddwr.

Hefyd, bydd cyfle i wneud defnydd o'n trac beicio mynydd, lle byddwch yn gweithio tuag at ennill eich tocyn Arweinydd Beicio Mynydd MIAS.



Beth sydd wedi'i gynnwys?

Hwylio Dingi

Sgiliau Sylfaenol yr RYA, Hwylio gyda Hwyliau Trisgwar yr RYA, Hyfforddwr Dingi'r RYA.



Gwyntsyrrffio

Dechrau Gwyntsyrrffio'r RYA, Starn-Ogamu Cwys Dim Plaenio'r RYA, Dechrau ar Draeth yr RYA, Gwyntsyrrffio Canolraddol (Dim Plaenio) yr RYA, Hyfforddwr Dechrau Gwyntsyrrffio'r RYA.



Caiacio

Diogelwch ac Achub Sylfaen BC, Dyfarniadau Chwaraeon Rhwyfo – Dechrau, Darganfod ac Archwilio, Dyfarniad Penodol i Ddisgyblaeth, Hyfforddwr Chwaraeon Rhwyfo.



Amrywiol

Cymorth Cyntaf yr RYA, Lefel 2 Cychod Pŵer yr RYA, Trwydded Radio VHF, Cynnal a Chadw Injan Ddisel yr RYA, Arweinydd Beicio Mynydd MIAS.

Mae pob ffi arholiad a'r llyfrau cofnodi perthnasol wedi'u cynnwys ym mhecyn y rhaglen hyfforddi, ond bydd aelodaeth o'r RYA, a llawlyfrau ychwanegol, yn arwain at ffi bellach.



Rhaglen Hyfforddi Hyfforddwyr Dingi a Gwyntsyrrffio 10 wythnos

Beth ydi'r rhaglen yma?

Mae'r amserlen hyfforddi gyflym yma'n darparu dau gymhwyster hyfforddi, a'r holl ofnion ymlaen llaw angenrheidiol. Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau mewn hwylio dingi a gwyntsyrrffio, gyda phwyslais ar y sylfeini, yn hytrach nag amrywiadau yn y gamp.

Beth sydd wedi'i gynnwys?

Hwylio Dingi

Sgiliau Sylfaenol yr RYA, Hwylio gyda Hwyliau Trisgwar yr RYA, Hyfforddwr Dingi Cyn Mynediad, Hyfforddwr Dingi'r RYA.



Gwyntsyrrffio

Dechrau Gwyntsyrrffio'r RYA, Starn-Ogamu Cwys Dim Plaenio'r RYA, Dechrau ar Draeth yr RYA, Gwyntsyrrffio Canolraddol (Dim Plaenio) yr RYA, Hyfforddwr Dechrau Gwyntsyrrffio'r RYA.

Amrywiol

Cymorth Cyntaf yr RYA, Lefel 2 Cychod Pŵer yr RYA, Trwydded Radio VHF.



Gellir rhannu'r cwrs yma'n Rhaglen Hyfforddwr Dingi 6 wythnos gyflym neu'n Rhaglen Hyfforddwr Gwyntsyrrffio 5 wythnos gyflym, i'r rhai sydd eisiau un cymhwyster yn unig.

Mae pob ffi arholiad a'r llyfrau cofnodi perthnasol wedi'u cynnwys ym mhecyn y rhaglen hyfforddi, ond bydd aelodaeth o'r RYA, a llawlyfrau ychwanegol, yn arwain at ffi bellach.

Rhaglen Datblygu Hyfforddwyr Plas Menai



Ydych chi wrth eich bodd yn gweithio yn yr awyr agored?

Oes gennych chi o leiaf un cymhwyster hyfforddi cydnabyddedig gan Gorff Rheoli Cenedlaethol ym maes chwaraeon dŵr?

Os mai oes yw'r ateb, mae gennym ni gyfle gwych i chi!

Mae'r Rhaglen Datblygu Hyfforddwyr ar gyfer pobl frwd ac awyddus sydd eisiau rhoi cychwyn i yrfa yn y diwydiant Gweithgareddau Antur Awyr Agored.

Mae hon yn rhaglen gyda thâl sy'n dod â'r elfennau canlynol at ei gilydd:

- Datblygiad personol
- Profiad yn y swydd
- Cyfle i ennill mwy o gymwysterau a gydnabyddir gan y diwydiant



Drwy gynorthwyo, ac arwain grwpiau ac unigolion mewn amrywiaeth o weithgareddau yn y dŵr ac ar y lan, mae'r rhaglen yma'n gyfle gwych am y canlynol:



Profiad amrywiaeth lawn y swyddogaethau yn y ganolfan

Dysgu drwy weithio ochr yn ochr â grŵp o hyfforddwyr hynod gymwys

Datblygu a defnyddio amrywiaeth o sgiliau mewn amgylchedd ymarferol

Mwynhau bod yn rhan o dîm profiadol, cyfeillgar o bobl debyg

Gan sicrhau eich bod yn barod am y diwydiant pan fyddwch yn gadael.



PROFIAD DYSGU DATBLYGU MWYNHAU
EXPERIENCE LEARN DEVELOP ENJOY

Yr hyn y Gallwch ei Ddisgwyl Gennym

sportwales
chwaraeoncyfmsu



Yn ystod eich cyfnod yma, byddwch yn cael lwfans byw, sy'n seiliedig ar wythnos waith arferol o 37 awr ac sy'n cynnwys:

- 23 awr o waith gyda thâl – gan gynnwys rhai penwythnosau a gyda'r nosau
- 14 awr o hyfforddiant a datblygiad personol



Rydyn ni'n derbyn pobl ym misoedd Chwefror ac Ebrill. I ddechrau, mae ymgeiswyr yn ymuno â'r rhaglen am 6 mis, ond, os byddwch yn ennill cymwysterau ychwanegol yn ystod y cyfnod hwnnw, ac yn dangos agwedd bositif at waith a thystiolaeth o ddatblygu sgiliau a thwf, mae cyfle i ymestyn y rhaglen am 6 mis ychwanegol.

Am gyfradd gyda chymhorthdal, mae'r cyfranogwyr yn gallu byw ar y safle ac elwa o'r canlynol:

- Ystafell breifat mewn tŷ sy'n cael ei rannu gydag eraill
- 3 pryd bwyd y dydd
- Defnydd o offer a chit y ganolfan
- Defnydd o gampfa a phwll nofio'r ganolfan
- Cyfle i wneud ffrindiau newydd a chymdeithasu gyda'ch cydweithwyr
- Blas ar fyw yn annibynnol



Am fwy o fanylion am y lwfans byw a'r costau llety, cysylltwch â'r Swyddfa Archebu ar info@plasmennai.co.uk neu **0300 300 3112**.

Bydd cyfle i gael eich hyfforddi'n barod ar gyfer dilyn rhai o'r cymwysterau canlynol

- Hyfforddwr Dingi'r RYA – neu Gymeradwyaeth Cwch Cil / Aml-Gwch os ydych chi'n Hyfforddwr eisoes
- Hyfforddwr Gwyntsyrrffio'r RYA – neu Ganolraddol os oes gennych chi'r lefel Dechrau eisoes
- Hyfforddwr Chwaraeon Rhwyfo BC – neu Arweinydd os ydych chi'n Hyfforddwr eisoes
- Hyfforddwr Cychod Pŵer yr



PROFIAD DYSGU DATBLYGU MWYNHAU
EXPERIENCE LEARN DEVELOP ENJOY

Hyfforddwr Dingi'r RYA

Hyfforddwr Dingi'r RYA yw'r cymhwyster gofynnol ar gyfer y rhai sy'n dymuno defnyddio eu sgiliau hwylio i addysgu eraill a rhannu eu hangerdd a'u brwdfrydedd dros y gamp.

Fel Hyfforddwr Dingi, rhaid i chi fod yn forwr medrus a phrofiadol sy'n gallu hwylio cwch hyfforddi mewn gwyntoedd cryfion, gan drin cwch pŵer bach a gallu cyfathrebu ag amrywiaeth eang o bobl, o rai amhrofiadol i lefel uwch, yn oedolion a phlant.

Meini Prawf Cymhwysedd

- Rhaid bod yn 16+ oed
- Aseiad Hwyllo Cyn Mynediad
- Lefel 2 Cychod Pŵer yr RYA
- Tystysgrif Cymorth Cyntaf ddilys a gydnabyddir gan yr RYA
- Tystysgrif cwrs Diogelu Diogel a Hwyllog yr RYA
- Aelod o'r RYA
- Cwblhau gwaith cyn y cwrs



Cymeradwyaeth Hyfforddwr Aml-Gwch neu Gwch Cil yr RYA

Mae'r cyrsiau Cymeradwyaeth Hyfforddwr deuddydd yma'n cynnwys hyfforddi sgiliau hwylio aml-gwch/cwch cil drwy gynnal sesiynau ar y lan ac ar y dŵr. Bydd yr hyfforddi'n canolbwyntio ar frifio da, cynnal sesiynau i wella perfformiad myfyrwr, a chyflwyno sesiynau dadfrifio safonol i grwpiau.

Er mwyn cynnal sesiynau llwyddiannus, mae disgwyl gwybodaeth ymarferol dda am dechnegau hwylio aml-gwch a thechnegau trin/cwch cil (gyda hwyl ac injan).

Meini Prawf Cymhwysedd

- Cymhwyster Hyfforddwr Dingi'r RYA
- Aelod o'r RYA
- O leiaf un tymor o brofiad yn addysgu hwylio
- Profiad blaenorol o drin cwch pŵer mewn amgylchedd addysgu
- Profiad o hwylio dingis aml-gwch gyda neu heb hwyliâu trisgwar anghymesur/profiad o hwylio cychod cil, gyda hwyl ac injan
- Cwblhau gwaith cyn y cwrs



Mae Hyfforddwr Aml-Gwch cymwys yr RYA yn gallu addysgu pob rhan o'r Cynllun Hwyllo Cenedlaethol (y mae wedi'i gydnabod i'w dysgu ar hyn o bryd) mewn cychod aml-gwch.

Mae Hyfforddwr Cwch Cil cymwys yr RYA yn gallu addysgu pob rhan o Gynllun Hwyllo Cenedlaethol yr RYA (y mae wedi'i gydnabod i'w dysgu ar hyn o bryd) mewn cychod cil.



sportwales
chwaraeon cymru

Cymeradwyaeth Hyfforddwr Uwch yr RYA

Mae'r cwrs deuddydd hwn yn cynnwys hyfforddi sgiliau hwylio perfformiad drwy gynnal sesiynau ar y lan ac ar y dŵr. Bydd yr hyfforddi'n canolbwyntio ar friffio da, cynnal sesiynau i wella perfformiad myfyrwyr, a chyflwyno sesiynau dadfriffio safonol i grwpiau.

Er mwyn cynnal sesiynau llwyddiannus, mae disgwyl gwybodaeth ymarferol dda am hwylio perfformiad, gan gynnwys technegau trisgwar (anghymesur fel rheol).



Meini Prawf Cymhwysedd

- Cymhwyster Hyfforddwr Dingi'r RYA
- O leiaf un tymor o brofiad yn addysgu hwylio
- Profiad blaenorol o drin cwch pŵer mewn amgylchedd addysgu
- Aelod o'r RYA
- Cwblhau gwaith cyn y cwrs
- Gallu hwylio i lefel Hwyllo Perfformiad a Hwyllo gyda Hwyliau Trisgwar o leiaf



Uwch Hyfforddwr yr RYA



Bydd y cwrs yma'n helpu i ddatblygu eich sgiliau o Hyfforddwr Dingi'r RYA i Uwch Hyfforddwr yr RYA. Mae'r cwrs pedwar diwrnod yn rhoi sylw i baratoi a chyflwyno sesiynau, rheoli cwrs a chanolfan, trin cwch pŵer mewn amgylchedd addysgu, Cynlluniau Hwyllo'r RYA, a rôl Uwch Hyfforddwr.

Rhaid i Uwch Hyfforddwr fod yn rheolwr hyderus a medrus sy'n gallu trefnu grwpiau o bob oedran, a chyfarwyddo a goruchwylio gwaith ei hyfforddwr.

Meini Prawf Cymhwysedd

- Gallu hwylio i lefel Hyfforddwr Dingi'r RYA
- O leiaf ddwy flynedd ysbeidiol o hyfforddi llawn amser am flwyddyn ers cymhwyso fel Hyfforddwr Dingi'r RYA
- Argymhelliad wedi'i lofnodi gan Bennaeth Canolfan Hyfforddi'r RYA
- Tystysgrif Cymorth Cyntaf ddilys a gydnabyddir gan yr RYA
- Tystysgrif cwrs Diogelu Diogel a Hwyllog yr RYA
- Cwch Diogelwch yr RYA
- Aelod o'r RYA
- Cwblhau Llyfr Gwaith yr Uwch Hyfforddwr



Mae pob ffi arholiad a'r llyfrau cofnodi perthnasol wedi'u cynnwys ym mhecyn y rhaglen hyfforddi, ond bydd aelodaeth o'r RYA, a llawlyfrau ychwanegol, yn arwain at ffi bellach.

PROFIAD DYSGU DATBLYGU MWYNHAU
EXPERIENCE LEARN DEVELOP ENJOY



sportwales
chwaraeon cymru

Hyfforddwr Gwyntsyrrffio'r RYA

Mae'r cwrs yn seiliedig ar faes llafur Dechrau Gwyntsyrrffio'r RYA felly mae'n hanfodol eich bod yn gyfarwydd â hwn cyn cyrraedd. Bydd y cwrs yn rhoi sylw i ddefnyddio efelychwr, arddangosfeydd ar y dŵr, a thechnegau addysgu grŵp a rheolaeth. Byddwch yn treulio'r rhan fwyaf o'r wythnos ar offer dechreuwyr.



Meini Prawf Cymhwysedd

- Rhaid bod yn 16+ oed
- Lefel 2 Cychod Pŵer yr RYA
- Diogelu Diogel a Hwyllog yr RYA
- Aelod o'r RYA
- Tystysgrif Cymorth Cyntaf ddilys a gydnabyddir gan yr RYA
- Cwblhau gwaith cyn y cwrs
- Tystysgrif dim plaenio ganolraddol gyda chlinigau starn-ogamu dim plaenio a dechrau ar y traeth



Mae Hyfforddwr Gwyntsyrrffio'r RYA yn gymwys i addysgu'r cwrs Dechrau Gwyntsyrrffio a Chamau 1 a 2 y Cynllun Gwyntsyrrffio i leuenctid, o dan oruchwyliaeth uwch hyfforddwr.

Mae pob ffi arholiad a'r llyfrau cofnodi perthnasol wedi'u cynnwys ym mhecyn y rhaglen hyfforddi, ond bydd aelodaeth o'r RYA, a llawlyfrau ychwanegol, yn arwain at ffi bellach.

12

Hyfforddwr Cychod Pŵer yr RYA



Yn ystod y cwrs tridiau, byddwch yn rhoi sylw i egwyddorion cyfarwyddyd ymarferol, cynllunio gwersi, dulliau addysgu, defnydd o gwestiynu, paratoi a defnyddio cymhorthion gweledol, asesu dysgu'r myfyrwyr, esbonio a chyflwyno pynciau theori, strwythur cynllun Cychod Pŵer yr RYA, cynllunio sesiynau addysgu cynyddol, paratoi cychod ac offer, a dulliau dysgu hyd at lefel 2 Cychod Pŵer yr RYA.

Meini Prawf Cymhwysedd

- O leiaf bum tymor o brofiad o yrru cychod pŵer, mewn amrywiaeth o gychod o ran maint a siâp. Ar gyfer y rhai sy'n defnyddio cychod pŵer fel rhan greiddiol o'u gwaith llawn amser, caiff y cyfnod yma ei leihau i un tymor.
- Lefel 2 Cychod Pŵer yr RYA
- Cwblhau Asesiad Sgiliau Hyfforddwr Cychod Pŵer
- Tystysgrif Cymorth Cyntaf ddilys a gydnabyddir gan yr RYA
- Aelod o'r RYA
- Cwblhau gwaith cyn y cwrs



Mae Hyfforddwr Cychod Pŵer yr RYA yn yrrwr cychod pŵer medrus a phrofiadol sydd wedi cael ei hyfforddi i addysgu gyrru cychod pŵer hyd at Lefel 2 Cychod Pŵer yr RYA.

Mae pob ffi arholiad a'r llyfrau cofnodi perthnasol wedi'u cynnwys ym mhecyn y rhaglen hyfforddi, ond bydd aelodaeth o'r RYA, a llawlyfrau ychwanegol, yn arwain at ffi bellach.

PROFIAD DYSGU DATBLYGU MWYNHAU
EXPERIENCE LEARN DEVELOP ENJOY

Hyfforddwr Chwaraeon Rhwyfo'r BC



Mae'r cymhwyster Hyfforddwr Chwaraeon Rhwyfo deuddydd ar gyfer y rhai sy'n cynnal sesiynau blasu a dechreuwyr, a siwrneiau byr mewn dyfroedd cysgodol iawn, oddi mewn i systemau rheoli diogelwch clybiau, canolfannau neu sefydliadau eraill.

Mae'r cwrs hyfforddi ac asesu ymarferol cyfun yn seiliedig ar yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau mae'r hyfforddwr eu hangen er mwyn sicrhau bod y cyfranogwyr yn ei ofal yn cael darpariaeth briodol.



Bydd y cymhwyster yn cefnogi'r hyfforddwr gyda sgiliau ymarferol, fel rhoi cit i grŵp a mynd ar y dŵr, gweithgareddau cyfarwyddo cychwynnol, gemau a gweithgareddau i gefnogi'r dysgu, a sut i ddefnyddio siwrneiau byrion i gefnogi'r dysgu, ac ysbrydoli antur ac archwilio. Bydd hyn yn cael ei ategu gan gefnogaeth gyda sut gellir cyflwyno'r sesiynau yma mewn ffordd sy'n bleserus, yn ddiogel ac yn rhoi llawer o foddhad.

Rhaid i Hyfforddwr Chwaraeon Rhwyfo fod â sgiliau cyfathrebu clir ac effeithiol, gallu creu perthnasoedd yn gyflym gyda grwpiau, bod yn gyfeillgar, gofalgar a hawdd siarad ag ef, a hefyd sicrhau cyn lleied o effaith negyddol â phosib ar yr amgylchedd ac ar ddefnyddwyr eraill.

Meini Prawf Cymhwysedd

- Rhaid bod yn 14+ oed*
- Medrusrwydd rhwyfo ac achub personol
- Cofrestriad Canolfan Gyflwyno'r Gwledydd Cartref
- Aelodaeth Lawn o Ganolfan Gyflwyno'r Gwledydd Cartref
- Hyfforddiant Diogelwch ac Achub Sefydliad British Canoeing



13



Er mwyn cynnal sesiynau llwyddiannus, argymhellir eich bod yn gallu rhwyfo i safon Dyfarniadau Perfformiad Personol. Bydd gan yr ymgeiswyr dystysgrif mewn un cwch ond hefyd byddant yn gallu rhoi cyfarwyddyd i fflyd gymysg.

Mae pob ffi arholiad a'r llyfrau cofnodi perthnasol wedi'u cynnwys ym mhecyn y rhaglen hyfforddi, ond bydd aelodaeth o'r RYA, a llawlyfrau ychwanegol, yn arwain at ffi bellach.

*Mae'n ofynnol i ymgeiswyr dan 16 oed wirio addasrwydd y cwrs gydag aelod o Uwch Dîm Rheoli Plas Menai, **cyn archebu lle**. Gallai methu gwneud hynny arwain at ganslo eich lle gennym ni.





CANOLFAN AWYR AGORED GENEDLAETHOL PLAS MENAI, CAERNARFON, GWYNEDD LL55 1UE

INFO@PLASMENAI.CO.UK

0300 300 3112

WWW.PLASMENAI.CO.UK



PROFIAD DYSGU DATBLYGU MWYNHAU